## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 12 MAWRTH 2024 AM 5.30pm**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: E.M. Aldworth, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, P. Cook, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Gordon, T. Heron, A. Leonard, B. Miles (Is-gadeirydd), T. Parry (Cadeirydd), J. Roberts, J. Simmonds, S. Skivens, J Winslade, a K. Woodland.

Aelodau Cabinet: Y Cynghorwyr C. Andrews (Addysg a Chymunedau), ac E. Forehead (Gofal Cymdeithasol).

Swyddogion: S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau i Oedolion), A. West (Rheolwr Gwasanaeth Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), A. Jones (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr S. Morgan a J. Pritchard, a'r Aelod cyfetholedig Mrs P. Ireland (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol).

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 1. | Cael unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), y Cynghorydd D. Cushing, Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mrs K. Cole (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol), a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili). | Dd/B |
| 2. | Datganiadau o fuddiant. | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. | Dd/B |
| 3. | Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2024. | PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar nodi, oherwydd anawsterau technegol, nid oedd y cyfarfod yn cael | Unfrydol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ei ffrydio'n fyw ond wedi'i recordio'n unig. Gofynnwyd i'r cwestiwn ynghylch gwobrau i wirfoddolwyr a'r ymateb gael ei wirio yn erbyn cofnodion y cyfarfod. | |
| 4. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Dd/B |
| 5. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.<br><br>PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar wefan y Cyngor. | Unfrydol |
| 6. | Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda. | Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda ei alw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod. | Dd/B |
| 7. | Rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Adroddiad Gwrthwynebiadau Statudol: Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf. | Ar ôl ystyried yr wybodaeth yn yr Adroddiad Gwrthwynebiadau, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.<br><br>PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn:<br><br>1. Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet a, drwy bleidlais, symud ymlaen i'r cam cais cynllunio a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr achos busnes dilynol. | Unfrydol |
| 8. | Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 – Adroddiad Gwrthwynebiadau Statudol: Cynnig i Gau Ysgol Fabanod Cwm Glas. | Ar ôl ystyried yr wybodaeth yn yr adroddiad diweddaru, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.<br><br>PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn:<br><br>1. Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet, trwy bleidlais, symud ymlaen i'r broses o'i weithredu'n llawn. | 15 o blaid<br>0 yn erbyn<br>1 ymatal |
| 9. | Pwysau'r Gaeaf. | Nododd y Pwyllgor Craffu y defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fel sail i Gynllun Cydnerthedd System rhanbarthol 2 flynedd i fynd i'r afael â | Dim angen pleidlais. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | phwysau posibl y gaeaf ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. | |
| 10. | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg – Adroddiad Blynyddol. | Cafodd y Pwyllgor Craffu yr adroddiad a gwnaeth sylwadau ar y cynnydd a wnaed ym mlwyddyn gyntaf Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. | Dim angen pleidlais. |

**Dosbarthiad:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Iau 21 Mawrth 2024.